

Rhagfyr 2016



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Golau yn y Gwyl: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru



Mae diwylliant yn bwysig.

Rwyf yn gwneud y datganiad hwn oherwydd fy mod yn dymuno...

- Atgoffa pobl o bwysigrwydd diwylliant. Ar adegau fel hyn, mae'n bwysicach nag erioed i bobl a chymunedau; mae'n gonglfaen hollbwysig sy'n gwarchod ac yn gwella ansawdd ein bywydau.
- Symbylu mwy o drafodaeth yn y byd gwleidyddol a'n cymdeithas yma yng Nghymru am werth diwylliant, a sut orau i gydweithio i'w feithrin a'i hyrwyddo.
- Annog syniadau a mentrau da, o le bynnag y dônt.
- Nodi fy nyheadau i o ran diwylliant ar gyfer tymor y Cynulliad hwn, a chyd-ymdrechu ar draws y Llywodraeth i gael y gwerth mwyaf posibl o'n buddsoddiad mewn diwylliant.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i ddiwylliant. Wrth sôn am 'ddiwylliant', rydym yn sôn am y **celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth**, neu mewn geiriau eraill, yr holl weithgareddau creadigol sy'n rhoi pwrpas ac ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth i bobl.

Rydym yn ystyried diwylliant yn flaenoriaeth. Rydym yn credu ynddo er ei fwyn ei hun ac mewn defnyddio arian cyhoeddus i'w gefnogi. Mae diwylliant yn ganolog i'n cymdeithas ac i'n hymdeimlad o berthyn i genedl, ac mae'n fynegiant o'n dwy iaith genedlaethol a'r diwylliannau sy'n perthyn iddyn nhw. Rydym yn credu hefyd mewn rhyddid artistig a diwylliannol, a dyna pam yr ydym yn cefnogi'r 'egwyddor hyd braich'.

Mae diwylliant yn grymuso. Mae'n hynod bwysig o ran datblygu hyder, sgiliau a chyflogadwyedd. Mae diwylliant hefyd yn gynyddol bwysig i'n heconomi, ac mae'n gwneud cyfraniad hollbwysig i feysydd allweddol eraill o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, ac adfywio.

Adlewyrchir hyn i gyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, lle mae 'diwylliant bywiog' yn un o'r saith nod cenedlaethol. Y nod yn hyn o beth yw creu 'cymdeithas sy'n **hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant**, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'.

Fodd bynnag, mae gennym waith i'w wneud os ydym am greu undod yn ein gwlad. Dangosodd canlyniad y Refferendwm ar aelodaeth o'r EU fod ein cymdeithas yn un ranedig. Mae angen i ni adfer y rhaniadau, meithrin ymdeimlad o berthyn mewn pobl ac ymdeimlad eu bod yn cael eu grymuso.

Mae dwyn perswâd ar ragor o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol (a chorfforol) yn hollbwysig os ydym am iddyn nhw ailfeithrin ymdeimlad o berthyn i gymdeithas Cymru a chredu bod ganddyn nhw ran ynddi.

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath yn cynnig manteision o bob math. Mae'n dod

â mwynhad, ond mae hefyd yn helpu pobl i fagu hyder ac i ddeall mwy amdany'n nhw eu hunain a'u cymunedau. Gall roi hwb i les personol, corfforol a meddyliol. Mae gennym sylfaen dda i adeiladu arni ond dylem anelu'n uwch: **Rwyf am sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf creadigol weithgar yn Ewrop.**

Rwy'n benderfynol y dylem barhau i ddangos i weddill Ewrop a thu hwnt ein bod yn wlad hyderus sy'n troi ei golygon tuag allan. Mae croeso i chi yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi cyfnewid diwylliannol. Rydym yn wlad fywiog, arloesol a blaengar. Rydym eisiau i chi ymweld â ni i brofi'r hyn sydd gennym i'w gynnig.

Mae gennyf weledigaeth o Gymru lle mae diwylliant yn ganolog i fywyd a lles y genedl, lle mae talent yn cael ei datgelu, ei meithrin a'i rhannu. Os na wnawn ni ymdrech i fod yn greadigol ac yn egniol, ni fyddwn byth mor iach, bodlon na hapus ag y byddem yn dymuno.

Y sefyllfa bresennol: ble rydym ni nawr

Mae gennym asedau anhygoel, sy'n deyrnged i fuddsoddiad cyhoeddus ac i waith y sector, yn enwedig dros y 2 ddegawd diwethaf. Mae'r sefyllfa ddiwylliannol bresennol yn un gadarnhaol iawn mewn sawl ffordd. Mae gan Gymru draddodiad diwylliannol hir, talent ragorol a'r gallu i fod yn arloesol. Mae gennym seilwaith ardderchog, ac rydym yn cynnig arlwy dwyieithog, cyfoethog a bywiog. Mae lefelau presenoldeb mewn digwyddiadau diwylliannol, a'r niferoedd sy'n cymryd rhan weithredol mewn mentrau diwylliannol, yn uchel – yn 2015, aeth rhyw 79% o oedolion i o leiaf un

digwyddiad celfyddydol, a chymerodd 40% ran mewn gweithgareddau artistig.¹ Mae cysylltiad cryf iawn hefyd rhwng ein treftadaeth naturiol a'n treftadaeth ddiwylliannol a'n hunaniaeth. Mae'r cefndir hwn yn dal i lywio llawer o'n cynnyrch diwylliannol cyfoes ac i ddylanwadu arno. Mae gennym atyniadau byd-enwog, megis tri Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, a chestyll a henebion Cadw.

Mae gennym gyfleusterau celfyddydau o'r radd flaenaf, megis Canolfan Mileniwm Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Pontio, Archifau Morgannwg, Porth y Rhath y BBC a stiwdios Pinewood.

Ac wrth gwrs, mae gennym gasgliadau rhagorol megis y rheini ar y saith safle sy'n rhan o'n Hamgueddfa Genedlaethol; y rheini yn y Llyfrgell Genedlaethol a'n harchif ddigidol genedlaethol yng Nghasgliad y Werin; yn Cof Cymru, ein cofnod ar-lein o Asedau Hanesyddol Dynodedig; yng nghatalog ar-lein Coflein o dreftadaeth archaeolegol, adeiladau, a threftadaeth ddiwydiannol a morol; ac mewn lleoedd megis Oriel Gelf Glynn Vivian, Oriel Mostyn, ac Oriel Kyffin Williams.

Mae Cymru'n cynnig arlwy o safon fyd-eang mewn llawer o feysydd gwahanol, er enghraifft, Opera Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales, Theatr Clwyd, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Artes Mundi, Canwr y Byd Caerdydd, a chynnyrchiau teledu a ffilm, gan gynnwys Dr Who a Sherlock. Mae hefyd yn cynnal amrywiaeth gyfoethog o ddigwyddiadau a gwyliau, gan gynnwys yr eisteddfodau cenedlaethol, yr eisteddfodau lleol a'r eisteddfodau ar gyfer pobl ifanc, ynghyd â Gŵyl y Gelli, Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Wakestock a Gŵyl Rhif 6.

Mae hyn oll yn helpu i ddenu mwy a mwy o bobl i ymweld â Chymru,

¹Daw'r ffigurau o Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 2015

yn rhannol oherwydd eu hawydd i brofi ein diwylliant arbennig ac unigryw. Hefyd, ein diwydiannau creadigol yw'r sector economaidd sy'n tyfu gyflymaf. Ac mae cannoedd o'n hartistiaid, curaduron, archifwyr, cerddorion a dawnswyr yn gweithio mewn ysgolion, ysbytai ac yn y gymuned i feithrin creadigrwydd, hyder a lles pobl.

Felly mae llawer iawn i'w fwynhau a'i ddathlu. Ond...

...mae ansicrwydd a phryder gwirioneddol, yn enwedig o ran arian yr UE a'r gostyngiadau yn y cymorth a roddir gan awdurdodau lleol. Oherwydd y pwysau hyn, mae'r sector yn colli staff profiadol ac arbenigol, sy'n peryglu ei broffesiynoldeb. Wrth i arian cyhoeddus grebachu, mae angen clir i'r sector diwylliant feithrin ei allu i godi arian, i farchnata ac i greu incwm.

Er ein bod yn llwyddo i wneud cynnydd, mae gormod o bobl o hyd yn teimlo mai peth elitaidd yw diwylliant, neu nad yw ei brofi neu gymryd rhan ynddo yn rhywbeth iddyn nhw.

Er bod technoleg ddigidol yn gweddnewid sut mae pobl yn creu ac yn mwynhau diwylliant, mae yna rannau o'n gwlad o hyd lle mae pobl yn teimlo allan ohoni. Yn yr un modd, er bod technoleg hyd yn oed yn rhatach ac yn fwy personol erbyn hyn, mae yna rannau o'r sector diwylliant sydd heb fanteisio ar y potensial hwnnw eto. Er bod tystiolaeth gynyddol i ddangos bod gweithgarwch diwylliannol yn helpu i fynd i'r afael ag agendâu allweddol eraill, megis iechyd a lles, adfywio a mynd i'r afael ag anfantais, ac er bod llawer o waith da yn cael ei wneud, rwyf yn credu y gall y sector diwylliannol wneud hyd yn oed fwy o gyfraniad yn hynny o beth.

Sut mae diwylliant yn cyfrannu at agendâu eraill

Mewn cyfnod fel hwn, byddai'n hawdd dweud na allwn fforddio buddsoddi mewn diwylliant, mai rhyw fath o 'wario ar foethau' ydyw na ellir ei gyfiawnhau bellach. Camgymeriad difrifol fyddai meddwl hynny. Mae diwylliant yn bwysig, ac mae iddo werth cynhenid. Ond dylem hefyd gydnabod ei werth cynyddol i'n heconomi a'r cyfraniad hollbwysig y gall ei wneud mewn meysydd polisi cyhoeddus eraill. Rydym yn mynd ati yng ngweddill y ddogfen hon i grynhoi'r cyfraniad hwnnw, gan wneud hynny ar sail pedair thema allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn awgrymu wedyn sut y gall y sector diwylliant, gyda'r cymorth a'r anogaeth briodol, wneud mwy fyth.

Yn olaf, rydym yn rhestru'r camau yr ydym ni fel Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd yn ystod tymor y Cynulliad hwn i gefnogi'r sector diwylliant, a'r cyfraniadau yr ydym yn awyddus i'n partneriaid eu gwneud. Drwy gydweithio, gallwn greu gwlad sy'n fwy creadigol fyth, ac sy'n enwog am ei diwylliant dwyieithog bywiog sydd ar gael i bawb ei fwynhau.

Ken Skates AC

Ysgrifennydd
y Cabinet dros
yr Economi a'r
Seilwaith



**"Culture is ordinary:
that is where we must start"**

Raymond Williams (1958)



Ffyniannus a Diogel



Yr Economi

Mae'r diwydiannau creadigol yn rhan o'r tân sy'n gyrru'n heconomi. Maent yn cyfrannu swyddi a chyfoeth ac yn helpu i roi Cymru ar y map, gan ddenu mwy o sylw ym mhob cwr o'r byd. Mae'r ffigurau diweddaraf (2014) yn dangos bod gennym dros 5,300 o fusnesau creadigol sydd â throsiant blyneddol o fwy na £2.1 biliwn ac sy'n creu gwaith ar gyfer mwy na 49,000 o bobl.

Mae'r sector diwylliant yn creu unigolion talentog â sgiliau trosglwyddadwy sydd o fudd i'n diwydiannau creadigol. Gall y sector diwylliant dielw ddatblygu mentrau digidol sydd o fudd wedyn i'r diwydiannau creadigol masnachol.

Mae sefydliadau diwylliannol yn fwy abl i arbrofi â ffurfiau newydd o gyfryngau

digidol y tu allan i leoliadau masnachol, gan greu mentrau llwyddiannus y gellir eu defnyddio'n fasnachol wedyn. Mae mwy a mwy o'n sefydliadau treftadaeth yn caniatáu mynediad ar gyfer ffilmio, sy'n cynhyrchu refeniw, ac sy'n dangos y safleoedd hynny i gynulleidfa fyd-eang. Mae cynrychiadau llwyddiannus megis *Y Gwyll/Hinterland*, *Y Llyfrgell/The Library*, *Suicides*, *Jack to a King: the Swansea Story*, *Poet in New York*, *Stella*, a'r *Syrcas*, a enwebwyd am Oscar, i gyd yn dangos bod lle i ragor o gynrychiadau sy'n ffenestr i ddiwylliant a thwristiaeth Cymru.

Wrth edrych i'r dyfodol: rydym yn bwriadu sefydlu 'Cymru Greadigol' i gefnogi'r diwydiannau creadigol; bydd y corff newydd hwn yn cynnal o leiaf 850 o swyddi a gwariant o £40 miliwn



y flwyddyn ar gynyrchiadau. Byddwn yn helpu'r rheini a fydd yn cael cymorth entrepreneuriaeth a chymorth i ddechrau prosiectau i weithio mewn mannau creadigol a rennir, a byddwn yn hyrwyddo cydweithio agosach â'r sector addysg er mwyn sicrhau cyflenwad cyson o sgiliau i hyrwyddo twf y sector creadigol.

Mae ein diwydiant digwyddiadau yn sector allweddol ynddo'i hun. Mae digwyddiadau diwylliannol yn un o'r ddwy elfen allweddol, ochr yn ochr â digwyddiadau chwaraeon. Mae'r sector yn un lle mae lefelau uchel o sgiliau ac mae'n cynnig swyddi a hyfforddiant o ansawdd. Cefnogwyd dros 500 o swyddi yn yr economi dwristiaeth ehangach yn ystod 2015 gan y digwyddiadau diwylliannol hynny a gafodd gymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae cynnal digwyddiadau a gwyliau yn cael effaith gymdeithasol o bwys hefyd. Mae gan y digwyddiadau a'r gwyliau hynny y gallu i gysylltu â phobl a chymunedau o bob cefndir, ac i hyrwyddo cyfranogiad.

Un enghraifft yw gwirfoddoli: helpodd bron 1,500 o wirfoddolwyr i gynnal

y digwyddiadau diwylliannol a gefnogwyd gennym yn 2015. Un o'r manteision eraill yw ail ymweliadau – er enghraifft, gall cyngherddau neu wyliau mewn lleoliadau hanesyddol annog cynulleidfau gwbl newydd i ymweld â'r safleoedd hynny. Gall digwyddiadau hefyd fod yn llwyfan proffil uchel ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg.

Wrth edrych i'r dyfodol, cydnabyddir bod llawer o'n digwyddiadau mwy amlwg yn arweinwyr cenedlaethol a rhyngwladol yn eu maes. Fodd bynnag, mae enghreifftiau megis Gŵyl y Gelli, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Rhif 6 yn llawn, neu'n agos at fod yn llawn eisoes. Felly, yr her sydd o'n blaenau fydd amddiffyn yr hyn sy'n eu gwneud yn arbennig ac yn unigryw, gan ddod o hyd i ffyrdd o ddatblygu ac ymelwa ar eu rhith-gynulleidfau ddigidol, oddi ar y safle, drwy ddefnyddio mwy ar ffyrddau byw a gweminarau.

Engbreifftiau

Stiwdios Pinewood

www.pinewoodgroup.com/our-studios/uk/pinewood-studio-wales

Stiwdios BBC Porth y Rhath

www.roathlock.com

Do Lectures

www.thedolectures.com

Focus Wales

www.focuswales.com/hafan/

Gŵyl y Dyn Gwyrdd

www.greenman.net

Gŵyl Gregynog

www.gregynogfestival.org/cymraeg/

Gŵyl y Gelli

www.hayfestival.com/gymraeg

Gwenfflam Caernarfon

Twristiaeth



Mae diwylliant yn rhan greiddiol o frand newydd Cymru, ac mae'r brand hwnnw am harneisio'n creadigrwydd i greu straeon newydd a fydd yn ychwanegu at ein diwylliant cyfoethog. Mae rhannau o'r sector diwylliant yn atyniadau twristiaeth hynod bwysig, sy'n hybu nifer yr ymwelwyr ac yn creu galw am wasanaethau trafndiaeth, llety, arlwyo a busnesau eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Caiff £150 miliwn y flwyddyn eu gwario ar wyliau lle mai diwylliant a threftadaeth yw'r prif weithgaredd. Mae mwy a mwy o bobl yn ymweld â Chymru i brofi'n diwylliant a'n treftadaeth ddiwylliannol.

Mae hynny'n cynnwys ein bwyd a'n diod, hanfodion bywyd sy'n unigryw ac yn creu atgofion. Mae datblygu twristiaeth yn golygu bod angen datblygu twristiaeth bwyd hefyd, a chreu cynlluniau gweithredu a threfnu gweithgareddau er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i ymwelwyr flasau'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Mae hynny yn ei dro yn helpu i ddatblygu'n diwydiant bwyd a diod, sy'n prysur dyfu.

Cafodd 132,400 o bobl eu cyflogi yn ein sector twristiaeth yn 2015 a chyfrannodd at Werth Ychwanegol Gros (GVA) o £2.8 biliwn yn 2014². Mae twristiaeth ddiwylliannol yn elfen hanfodol o hyn: mae 61% o ymwelwyr tramor yn dweud mai'n safleoedd hanesyddol yw un o'r rhesymau allweddol dros eu hymweliad â Chymru. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd ein llwyddiant wrth ddatblygu twristiaeth ddiwylliannol yn dibynnu ar fuddsoddi

yn y profiad a gynnigir i ymwelwyr, gan gynnwys llety o ansawdd yn ein hatyniadau diwylliannol pwysig.

Ond bydd yn dibynnu hefyd ar sicrhau bod ymwelwyr yn gwybod beth sydd gennym i'w gynnig, a phryd. Mae angen i ni ennyn eu chwilfrydedd a'u temtio â'r cyfle i fwynhau profiad dilys ac unigryw o'r hyn y mae gan ein pobl a'n diwylliant i'w gynnig. Mae heriau'r dyfodol yn cynnwys defnyddio llwyfannau digidol i'w gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i wybodaeth. Mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd fod cyfoeth diwylliannol Cymru yn cael sylw yn y cyfryngau prif ffrwd a'r wasg boblogaidd.

Bydd digwyddiadau mawr yn parhau i ddenu ymwelwyr. Ond mae angen i ni hefyd frandio gweithgarwch yn gliriach, a chreu cynhyrchion twristiaeth ddiwylliannol newydd, megis y Coridor Diwylliant arfaethedig ar yr A55. Mae angen i ni hefyd annog ein sefydliadau treftadaeth a diwylliannol i gydweithio mwy, er mwyn sicrhau'r perfformiad masnachol gorau posibl. Bydd sefydlu 'Cymru Hanesyddol' yn ein helpu i gyflawni hynny. Mae angen i ni sicrhau bod potensial economaidd ein safleoedd hanesyddol yn cael ei wireddu i'r eithaf. Mae yna gryn botensial – er enghraifft, arweiniodd y buddsoddiad diweddar mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf yng Nghastell Harlech at gynydd o dros 25% yn nifer yr ymwelwyr â Harlech mewn blwyddyn yn unig.

Engbreiffiau

Castell Harlech

www.cadw.gov.wales/daysout/harlechcastle/?skip=1&lang=cy

Dylan Thomas 100

www.dylanthomas.com/cy/

Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan

www.amgueddfa.cymru/sainffagan/

Adfywio

Mae'r modd y gall diwylliant sbarduno adfywio yn nodwedd sy'n diffinio'r oes sydd ohoni. Mae ansawdd y cyfleusterau diwylliannol mewn ardal yn dylanwadu'n fawr ar bobl fusnes pan fyddant yn ystyried ble i leoli eu cwmnïau. Mae pobl sy'n gwneud penderfyniadau busnes am gael safon dda o fyw iddyn nhw eu hunain ac i'w teuluoedd a'u gweithwyr.

Mae'n well gan bobl fyw a gweithio mewn ardaloedd deniadol ac unigryw. Mae llawer iawn o botensial i'r sectorau diwylliannol a chreadigol gefnogi'r bargeinion dinesig newydd a'r gwaith adfywio cyffredinol sy'n seiliedig ar le. Mae'n gyfle na ddylid ei golli. Mae llawer y gallwn ei ddysgu o'r hyn a gyflawnwyd mewn dinasoedd eraill yn y DU, megis Manceinion, Caeredin, Lerpwl a Stoke-on-Trent, ac mewn dinasoedd tramor, megis Barcelona a Bilbao.

Mae diwylliant, yn ei amryfal ffurfiau, yn gwneud cyfraniad allweddol at greu lleoedd amrywiol, llewyrchus, llawn addewid. Gall lleoliadau, orielau ac amgueddfeydd newydd, neu waith i'w hadnewyddu, sbarduno rhagor o adfywio, ac arwain at sefydlu 'ardaloedd diwylliannol' yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd. Mae hynny, yn ei dro, yn helpu i greu rhagor o fywiogrwydd ac amrywiaeth. Yn yr un modd, mae gan ein safleoedd treftadaeth a'n lleoedd hanesyddol ran bwysig i'w chwarae o safbwynt cefnogi adfywio. Maent yn rhan greiddiol o hunaniaeth a hynodrwydd, ac maent yn gallu gwneud cyfraniad pendant at ansawdd lle. Un enghraifft yw Caernarfon, lle mae gwelliannau i'r drefwedd yn creu lleoliad bywiog a phriodol i'r castell, sy'n safle treftadaeth y byd.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae gan y sector diwylliant y potensial i chwarae rhan bwysig mewn prosiectau adfywio mawr megis dinas-ranbarthau Prifddinas Caerdydd a Bae Abertawe. Ond, fel y

gwyddom o genhedlaeth flaenorol o fuddsoddiad cyfalaf a ariannwyd gan yr UE ledled Cymru, ni all y datblygiadau hyn lwyddo ar sail eu seilwaith ffisegol yn unig. I weddnewid pethau go iawn, bydd angen ennill calonnau a meddyliau, drwy edrych mewn ffordd holistig ar y modd y mae dinas neu ranbarth yn byw ac yn anadlu, a'r lles y mae'n ei greu.

Yr unig ffordd o gyflawni hyn yw i'r holl ddinasyddion deimlo eu bod yn rhan o leoedd y gellir byw ynddynt. Mae diwylliant yn allwedd, ar bob lefel o adfywio a chreu lle, ond dim ond os caiff ei ddefnyddio, ei gefnogi a'i goleddu.

Enghreifftiau

Canolfan Mileniwm Cymru
(Bae Caerdydd)
www.wmc.org.uk/?lang=cy-GB

Menter Adfywio Glannau a
Chanol Tref Caernarfon
www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Adfywio/Menter-Adfywio-Glannau-a-Chanol-Tref-Caernarfon.aspx

Canolbwynt Celfyddydau
a Diwylliant Wrecsam

YMCA Pontypridd (The Hub)

Ardal ddiwylliannol Stryd
Fawr Abertawe

Menter Treftadaeth
Treflun Ddinbych
www.dcfw.org/denbigh-townscape-heritage-initiative-denbighshire/

Y BBC yn y Sgwâr
Canolog (Caerdydd)
www.centralsquarecardiff.co.uk

Rhyngwladol



Mae ein diwylliant bob amser wedi bod yn un o'n hallforion pwysicaf. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae rhai sefydliadau ac ymarferwyr diwylliannol wedi chwarae rhan amlwg mewn helpu i hybu Cymru, a'i diwylliant, i'r byd; er enghraifft Cymru yng Ngŵyl y Smithsonian (2009), Womex (2013), a Chymru yn Fenis (2003 hyd heddiw).

Fodd bynnag yng Nghymru ar ôl Brexit, bydd mynd ati i gymell yn dawel yn fwyfwy pwysig os ydym am argyhoeddi eraill bod Cymru yn wlad gyfoes, sy'n edrych tuag allan, iddyn nhw ymweld â hi a gwneud busnes â hi. Os gellir defnyddio ein cymell tawel yn effeithiol, mae buddion posibl enfawr o ran datblygu masnach, gan helpu i ddenu mewnfuddsoddiad ac annog mwy o dwristiaeth o dramor.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni ddatblygu ein perthynas â chyrff, gan gynnwys y British Council, Visit Britain, a braich ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Os ydym yn meithrin perthynas effeithiol, gydlynol, byddwn yn gallu hybu diwylliant Cymru dramor yn well, a sicrhau y caiff Cymru ei chynrychioli yn briodol mewn mentrau perthnasol gan y DU. Dylai diwylliant Cymru fod yn nodweddiadol bwysig o ymgyrchoedd masnach, ymweliadau diplomyddol, arddangosfeydd rhyngwladol a

chyfnewid addysgol. Bydd sicrhau bod gennym ni yn Llywodraeth Cymru agenda glir ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol yn cynnwys gweithio'n agosach â'r rheini yn y sector diwylliannol yng Nghymru sy'n gweithredu ar lefel ryngwladol.

Yn dilyn y Refferendwm diweddar, mae'r posibilrwydd y bydd gan bobl, nwyddau a gwasanaethau lai o ryddid i symud i'r UE ac o'r UE, yn destun cryn bryder. Gallai unrhyw gyfyngiadau newydd olygu y bydd yn anodd iawn denu sefydliadau a gweithwyr proffesiynol creadigol i Gymru. Mae angen i ni gynorthwyo ymarferwyr o'r fath i barhau i weithio yma, er enghraifft drwy sicrhau cymal a fydd yn eithrio gweithgareddau diwylliannol o'r cyfyngiadau ar y rhyddid i symud. Mae'n rhaid inni sicrhau bod ein neges yn un gref: bod gan Gymru agwedd ryngwladol, a'i bod yn dymuno parhau i weithio gyda'n partneriaid yn Ewrop. Mae'n rhaid i ni sicrhau hefyd ein bod yn cael cyllid o gronfeydd y DU ar gyfer ein sector diwylliannol yn lle unrhyw arian Ewropeaidd a gollir.

Enghreifftiau

NoFit State yn Awstralia

www.nofitstate.org/blog/admin/bianco-goes-australia

Cymru yn Fenis

www.arts.wales/artsinwales/fenis

Cymru yng Nghaeredin

www.wai.org.uk/wales-in-edinburgh?diablo.lang=cym

Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Tsieina

www.amgueddfa.cymru/blog/2011-10-31/Chongqing-and-Wales/

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ym Mhatagonia

www.bbc.co.uk/news/uk-wales-34687319

Iach ac Egniïol



Iechyd a gofal cymdeithasol

Gall cymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles. O'u defnyddio i ategu meddyginiaeth a gofal, gall gweithgareddau diwylliannol a chreadigol wella iechyd pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gorfforol. Mae llesiant, yn ei ystyr ehangaf, yn un o ganlyniadau allweddol gweithgarwch ym maes y celfyddydau a diwylliant.

Gall creadigrwydd, diwylliant a'r celfyddydau helpu pobl i anelu'n uwch. Gallant feithrin hyder ac ymdeimlad o gymuned a chydlyniant, a hybu lles unigolion a'r gymuned. Gallant gyfrannu at wella iechyd cyhoeddus.

Gall gweithgarwch creadigol hybu byw'n iach a ffyrdd iach o fyw, a gall hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am faterion yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus. Gall gyfrannu at iechyd, llesiant ac at atal afiechyd. Gall hefyd wella cyflwr meddyliol, emosiynol a chorfforol defnyddwyr y Gwasanaeth Iechyd, gwella amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol i staff a defnyddwyr y gwasanaethau, a helpu staff meddygol, gofawyr, cleifion a theuluoedd i gyfathrebu yn fwy effeithiol â'i gilydd.

Mae amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau yn gweithio yn y maes hwn eisoes. Yn eu plith y mae therapyddion celfyddydau, ymchwilwyr a churaduron sy'n rheoli rhaglenni celfyddydau a diwylliant mewn ysbytai.



Mae yna hefyd lawer o unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y gymuned i ddarparu cyfleoedd diwylliannol i bobl sy'n sâl, neu i bobl y mae angen gofal cymdeithasol arnynt yn yr hirdymor. Yn eu plith y mae llyfrgelloedd, corau, clybiau peintio a grwpiau dawnsio. Drwy wneud hyn, mae'r sector diwylliant yn chwarae rhan hanfodol wrth gadw pobl yn iach ac, yn achos rhai ohonynt, mae'n golygu eu bod yn osgoi'r angen am ymyriadau meddygol costus.

Wrth edrych i'r dyfodol, gall y sector diwylliant chwarae rhan bwysig wrth newid pwyslais ein system gofal iechyd – o system sy'n canolbwyntio ar afiechyd, i system sy'n canolbwyntio ar les ac ar atal afiechyd. Mae llawer o waith da yn cael ei wneud eisoes. Ar draws GIG Cymru, mae ymyriadau diwylliannol yn helpu i wella amgylcheddau gofal iechyd ac i ddarparu cyfleusterau o ansawdd gwell i gleifion a staff – er enghraifft therapyddion celfyddydau, ymchwilwyr, a churaduron sy'n rheoli rhaglenni diwylliannol mewn ysbytai, a rhaglenni wedi'u targedu yn y gymuned, megis 'Bond Lles Cymru' sy'n cael ei ddarparu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

Byddwn yn ehangu'r gwaith hwn o dan ein Rhaglen Lywodraethu newydd, drwy annog ymyriadau o'r fath, drwy ehangu'r 'cynllun rhagnodi cymdeithasol' sydd â'r nod o wella iechyd meddwl ac iechyd chorfforol.

Bydd hynny'n ein helpu i gyrraedd ein nod llesiant 'Cymru iachach, lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol'. Mae lle hefyd i fwy o gydweithredu rhwng y sector chwaraeon a'r sector diwylliant. Gall y ddau sector helpu'i gilydd – un enghraifft yw'r gweithgareddau rhedeg a'r teithiau cerdded diwylliannol y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn eu cynnal mewn parciau, ac un arall yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gan gwmnïau dawns fel Rubicon wrth iddo gyflwyno dawnsio cyfoes i fechgyn a merched yn ystod gwersi ymarfer corff.

Yn fwy cyffredinol, mae rhaglenni sy'n defnyddio dynion a menywod o fyd chwaraeon i hyrwyddo llythrennedd mewn ysgolion, a'r cynlluniau mentrau cymdeithasol uchelgeisiol sydd gan Gymnasteg Cymru, yn tynnu sylw at gyfleoedd posibl i'r sectorau gydweithio. Byddwn yn disgwyl i'r ddau sector, a'r cyrff a noddir, ddatblygu mwy ar y gwaith hwn.

Enghreifftiau

Rhaglen y Celfyddydau mewn Iechyd a Lles BIP Betsi Cadwaladr
www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/84956

Celfyddydau mewn gofal cymdeithasol cARTrefu
www.ageuk.org.uk/cymru/health--wellbeing/cartrefu

Cynllun 'Llyfrau Llesol'
www.nhsdirect.wales.nhs.uk/lifestylewellbeing/bookprescriptionwales?locale=cy

Bond Lles CGGC
www.wcva.org.uk/media/2294746/wales_wellbeing_bond_-_cwm_taf_overview.pdf

'Singing for the Brain', Canolfan Gerdd William Mathias/ prosiect Cymdeithas Alzheimer

Uchelgais a Dysgu



Addysg

I lawer o bobl ifanc, diwylliant yw'r sbardun sy'n eu symbylu i ddatblygu meddwl beirniadol annibynnol. Mae'n eu hysbrydoli, gan roi uchelgais a hyder iddynt. Mae'n herio diffyg dyheadau, ac yn helpu i dorri'r cylch amddifadedd sy'n ganlyniad i gyflawniad addysgol isel. Gall fod yn allwedd sy'n agor y drws i addysg bellach ac uwch, ac yn y pen draw i gyflogaeth.

Mae'r rhaglen sydd gennym ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau', sy'n werth £20 miliwn, yn newid proffil y celfyddydau a diwylliant yn ein hysgolion. Mae'r rhaglen hon yn rhoi creadigrwydd a'r celfyddydau wrth

wraidd addysg pobl ifanc. Ar ôl dwy flynedd o'r rhaglen pum mlynedd hon, mae tystiolaeth gynyddol bod y rhaglen yn gwella cyrhaeddiad, yn creu mwy o gyfleoedd ac yn galluogi dysgwyr ac athrawon i ddatblygu eu sgiliau a'u creadigrwydd. Fe'i canmolwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'.

Roedd yr adroddiad hwnnw'n argymhell y dylai'n cwricwlwm cenedlaethol newydd gynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad, ac y dylai'r Celfyddydau Mynegiannol fod yn un o'r ohonynt, ynghyd ag Iechyd a Lles; Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Mathemateg a Rhifedd; a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Wrth edrych i'r dyfodol, un dasg allweddol fydd parhau i sicrhau bod y rhaglen newid sydd ar waith fel rhan o'n menter, 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau', yn ymwreiddio. Bydd y fenter honno, sy'n werth £20 miliwn, yn para am gyfnod o 5 mlynedd. Byddwn yn helpu ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm newydd drwy integreiddio dulliau addysgu creadigol, gan helpu athrawon i wella eu sgiliau creadigol eu hunain. Rydym am i ysgolion yng Nghymru fod yn fannau creadigol sy'n ysbrydoli pobl, lle mae diwylliant yn bywiogi ac yn bywiocáu bywyd ysgol. Byddwn hefyd yn creu ac yn helpu i gyllido Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth i helpu pobl ifanc i wireddu eu doniau cerddorol.

Sgiliau



Mae gan y sector diwylliannol rôl i'w chwarae o ran datblygu sgiliau gweithlu ehangach Cymru. Mae creadigrwydd yn treiddio i fwy a mwy o feysydd gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Ers talwm, diwydiant a gweithgynhyrchu oedd byd y prif gwmnïau byd-eang, ond erbyn hyn

maen nhw'n gweithio'n bennaf ym meysydd cyfathrebu, gwybodaeth, adloniant, gwyddoniaeth a thechnoleg. Ym mhob un o'r meysydd gwaith hyn, mae angen llawer o ddychymyg creadigol a gweledigaeth flaengar – rhinweddau y mae diwylliant a'r celfyddydau mewn sefyllfa ddelfrydol i'w meithrin a'u hyrwyddo. Mae cyflogwyr yn rhoi mwy a mwy o bwyslais ar yr angen am rinweddau a galluoedd nad ydynt bob tro'n cael eu meithrin gan gymwysterau academiaidd: creadigrwydd, cyfathrebu, empathi, hyblygrwydd, a gwaith tîm.

Mae gan y sector diwylliannol hefyd rôl hollbwysig i'w chwarae o ran helpu pobl nad ydynt, am ba reswm bynnag, mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae mentrau megis rhaglen 'Cyrraedd y Nod' Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dangos pa mor effeithiol y gall cyrff diwylliannol fod wrth ennyn diddordeb pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o fod felly, a'u helpu i feithrin y sgiliau 'meddal' y mae eu hangen arnynt, megis hyder a'r gallu i gyfathrebu'n well, er mwyn dod yn rhan o'r gweithlu.

Swyddogaeth arall yw cynnal sylfaen sgiliau y sector ei hun. Mae gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, yr academi sgiliau genedlaethol, ran hollbwysig i'w chwarae o safbwynt denu pobl ifanc i weithio yn y sector creadigol a helpu'r sector hwnnw i ffynnu. Ond mae gan ddarparwyr diwylliannol ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth hefyd. Mae Cadw, er enghraifft, yn helpu i sicrhau bod sgiliau traddodiadol arbenigol yn cael eu cadw er budd cenedlaethau'r dyfodol drwy fynd ati i ddatblygu sgiliau traddodiadol. Mae gan ei dîm crefftau cadwraeth mewnol, Cadwraeth Cymru, 25 o gadwraethwyr medrus. Mae Cadw hefyd yn defnyddio ei gynllun Grant Adeiladau Hanesyddol i greu cyfleoedd i ddatblygu a meithrin sgiliau. Mae cyfrifoldeb ar y cwmnïau celfyddydol cenedlaethol pwysig hefyd

i helpu i ddatblygu sgiliau yn y ffurfiau penodol o gelfyddyd y maen nhw'n ymwneud â nhw; mae hwn yn rhywbeth y mae Canolfan Mileniwm Cymru, er enghraifft, wedi mynd ati i'w wneud drwy gynnig lleoliadau gwaith, drwy fentora safleoedd sy'n bartneriaid, a thrwy ddarparu hyfforddiant i'r sector.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni feithrin sgiliau a chreadigrwydd ein holl bobl ifanc, ac ymestyn y rhai mwy abl a thalentog. Gallwn ddatblygu sgiliau a disgyblaethau pwysig o'r oeddrannau cynharaf un, ond mae hefyd angen llwybrau i'r bobl ifanc hyn fedru symud ymlaen yn effeithiol i addysg bellach ac uwch neu i fyd gwaith. Mae'n rhaid i ni annog ein prifysgolion a'n colegau yn eu hymdrechion i adeiladu canolfannau dysgu ac ymchwil o bwys cenedlaethol.

Mae gennym sylfaen gref i adeiladu arni. Er enghraifft, mae gan Gyfadran y Diwylliannau Creadigol ym Mhrifysgol De Cymru fwy na 3,000 o ddysgwyr yn astudio ym meysydd theatr, perfformio, sain a cherddoriaeth, animeiddio, gemau, effeithiau gweledol, newyddiaduraeth, y cyfryngau, ffilm, y celfyddydau, dylunio, ffasiwn a ffotograffiaeth. Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ein Conservatoire Cenedlaethol, yn cynnig hyfforddiant uwch i'r dysgwyr mwyaf dawnus o Gymru ochr yn ochr â dysgwyr o weddill y DU a thramor. Mae hyfforddiant o'r fath yn rhoi'r gallu i raddedigion gael swyddi yn y system ddiwylliannol yng Nghymru a thu hwnt. Dylai'r sector diwylliannol a'r sector diwydiannau creadigol gydweithio'n agosach â phrifysgolion a cholegau i helpu i ddylunio a darparu cyrsiau sy'n cael eu hachredu gan yr amryfal ddiwydiannau ac sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion.

Mae angen hefyd i'r sectorau diwylliant a'r diwydiannau creadigol fynd ati'n fwy rhagweithiol i hyrwyddo'r gyrfaedd y gallant eu cynnig, ac i ddatblygu rhagor o brentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd mentora. Mae angen

arbennig i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer y sector creadigol. Ar hyn o bryd, nid oes digon o staff technegol medrus yng Nghymru i gefnogi'n sector cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau, sy'n prysur dyfu. Mae'r bylchau hyn o ran sgiliau yn newid yn gyflym dros amser, ac yn amrywio o seiri a chyfrifyddion i artistiaid gwallt a cholur; mae hyn yn dangos bod angen rhaglenni mwy rhagweithiol a hyblyg i hyfforddi ac ailhyfforddi pobl.

Engbreiffiau

Ysgolion Creadigol Arweiniol

www.arts.wales/what-we-do/creative-learning/cynllun-yr-ysgolion-creadigol-arweiniol?diablo.lang=cym

Cronfa Profi'r Celfyddydau

www.arts.wales/what-we-do/creative-learning/the-all-wales-arts-and-education-programme/experiencing-the-arts

Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgel

www.llyfrgelloedd.cymru/ysgolion/

Sialens Ddarllen yr Haf

www.lyfrgelloedd.cymru/staff-toolkit/sialens-ddarllen-yr-haf-2016/

Sistema Cymru: Codi'r To

www.sistemaeurope.org/wales

Rhaglen addysg Cadw

www.cadw.gov.wales/learning/?skip=1&lang=cy

Cadw Cadwraeth Cymru

Rhaglen 'Cyrraedd y Nod' Cyngor Celfyddydau Cymru

www.arts.wales/arts-in-wales/inspire/reach/reach-the-heights

Cynllun Prentisiaethau Creadigol Canolfan Mileniwm Cymru

www.andrewlloydwebberfoundation.com/grants-awarded/wales-millennium-centre

Unedig a Chysylltiedig



Trechu tlodi ac anfantais

Fel y nododd y Farwnes Andrews yn ei hadroddiad 'Diwylliant a Thlodi' yn 2014, mae gan y sector diwylliant ran hollbwysig i'w chwarae wrth drechu tlodi ac anfantais. Mae ein 'Rhaglen Cyfuno' yn dangos sut y gall diwylliant rymuso pobl ddifreintiedig sydd wedi ymddieithrio, a rhoi llais iddynt. Mae'r rhaglen hon yn chwalu rhwystrau, ac yn nodi ffyrdd newydd o annog pobl i ymweld â safleoedd diwylliannol a chymryd rhan mewn prosiectau diwylliannol. O'r 1,500 o bobl a gymerodd ran ym mhrosiectau Cyfuno yn 2015, cymerodd bron traean ohonynt ran mewn cyrsiau neu weithgareddau gwirfoddoli, neu buont wrthi'n ennill sgil neu gymhwyster newydd. Mae hon yn ffordd newydd radical o sicrhau bod ein buddsoddiad diwylliannol yn canolbwyntio ar y bobl mwyaf anghenus.

Drwy gydlynw a chydgyssylltu gwaith ar y lefel leol, mae'r sector diwylliannol wedi dangos ei fod, drwy fuddsoddi symiau cymharol fach yn unig, yn gallu arloesi a chydweithredu i ddarparu gwell canlyniadau i bobl y mae angen cymorth arnynt.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn cryfhau'r rhaglen Cyfuno drwy ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n hyrwyddo llwybrau at gyflogaeth. Gall cyrff diwylliannol chwarae hyd yn oed fwy o ran yn hyn o beth drwy ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli strwythuredig, a lleoliadau hyfforddiant a dysgu achrededig. Drwy roi cyfle i bobl ennill sgiliau, mae'r rhain i gyd yn meithrin hyder, yn gwella cymhelliant ac yn helpu i greu pobl y gellir eu cyflogi. Byddwn yn mynd ati'n barhaus i werthuso effaith ac effeithiolrwydd y rhaglen.

Enghreifftiau

Prosiect 'Cynefin' y Llyfrgell
Genedlaethol

www.cynefin.archiveswales.org.uk/cy/

'Kids in Museums'

[www.kidsinmuseums.org.uk/
manifesto-wales](http://www.kidsinmuseums.org.uk/manifesto-wales)

Hyrwyddwyr Ifanc

[www.nosonallan.org.uk/noson-allan/
cynllun-hyrwyddwyr-ifanc.aspx](http://www.nosonallan.org.uk/noson-allan/cynllun-hyrwyddwyr-ifanc.aspx)

Cyfuno: 'Positive Identity'
(Casnewydd)

www.facebook.com/UrbanCircle

Cyfuno: Oriel Crafters/prosiect
'Make Trips' (Wrexham)

[www.wrexham.gov.uk/welsh/
community_w/arts_centre/arts_
centre_home_w.htm](http://www.wrexham.gov.uk/welsh/community_w/arts_centre/arts_centre_home_w.htm)

Cydraddoldeb



Mae gan sefydliadau a gweithgareddau diwylliannol rôl arbennig o bwysig i'w chwarae o ran dod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Mae cymryd rhan yn y celfyddydau, mewn diwylliant a threftadaeth yn golygu bod lleisiau gwahanol a lleisiau sydd wedi'u hallgáu yn cael cyfle i lefaru, sy'n wahanol i'r sefyllfa mewn cynifer o agweddau

eraill ar fywyd. Mae llawer o sefydliadau o'r fath yn gwneud gwaith rhagorol i annog grwpiau sydd, am ryw reswm neu'i gilydd, yn teimlo nad oes lle iddyn nhw mewn lleoliadau a gweithgareddau diwylliannol, fynd i'r lleoliadau hynny neu i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny. Mae'r grwpiau hynny'n cynnwys, er enghraifft, pobl ag anableddau, pobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, a phobl hŷn. Mae mentrau o'r fath yn cynnwys tocynnau am ddim neu am ostyngiad, perfformiadau arbennig a sesiynau blasu, a phrosiectau wedi'u teilwra yn y gymuned.

Wrth edrych i'r dyfodol, er gwaethaf y rôl arbennig sydd gan y sector i'w chwarae o ran hyrwyddo'r agenda cydraddoldeb, mae gan lawer o gyrff diwylliannol waith i'w wneud o hyd i wir gynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac i sicrhau bod eu gwaith ar gael i bawb. Yn gyffredinol, mae angen i'r sector ddatblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru'n well, mae angen iddo wella cynrychiolaeth yn ei strwythurau llywodraethu, ac i sicrhau mwy o amrywiaeth yn ei gynulleidfaoedd, ac o ran y bobl sy'n cymryd rhan ynddo ac yn ei ddefnyddio. Drwy wneud hynny, bydd y sector diwylliant yn ein helpu i gyrraedd ein nod llesiant o Gymru sy'n fwy cyfartal, lle mae pobl yn cael eu galluogi i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

Enghreifftiau

Gŵyl Undod Hijinx

www.hijinx.org.uk/unity

Celfyddydau Anabledd Cymru

www.disabilityartscymru.co.uk/cy/

Gwobr Iris

www.irisprize.org

Cynllun Hynt

www.hynt.co.uk/cy/

Gŵyl y Gwanwyn

www.gwanwyn.org.uk

Y Gymraeg



Mae perthynas annatod rhwng diwylliant Cymru a'r Gymraeg, ac mae gan y sector diwylliant rôl hanfodol i'w chwarae o ran cefnogi'n strategaeth ar gyfer y Gymraeg. Mae'r rôl honno'n cynnwys darparu rhagor o weithgareddau Cymraeg i blant a phobl ifanc ac atgyfnerthu sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfodau Lleol ac Urdd Gobaith Cymru, yn chwarae rhan arbennig o bwysig, nid yn unig o ran cynnal yr iaith a sicrhau ei bod yn tyfu, ond hefyd o ran annog rhagor o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol ar lawr gwlad.

Mae gan sefydliadau ac adnoddau cymunedol eraill hefyd ran hollbwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r iaith; er enghraifft llyfrgelloedd lleol, lle gall pobl fanteisio ar lyfrau a deunyddiau Cymraeg, a gweithgareddau Cymraeg eraill megis grwpiau darllen.

Mae gan y cyfryngau hefyd ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r iaith. Mae amrywiaeth a safon y rhaglenni

Cymraeg ar S4C a BBC Radio Cymru yn helpu i gadw'r Gymraeg yn iaith gyfoes. Mae'r darlledwyr hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Er nad yw darlledu yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth posibl i sicrhau bod darlledu cyfrwng Cymraeg yn parhau i ffynnu. Rydym yn parhau i roi cymorth ariannol i wasanaeth newyddion ar-lein dyddiol cyfrwng Cymraeg ac mae hynny hefyd yn cyfrannu at ein dyhead i weld mwy o wasanaethau newyddion yn Gymraeg.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae gan y sector diwylliant ran bwysig i'w chwarae o ran cefnogi'n nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gyrraedd y nod hwnnw, mae'n rhaid i'r sector wneud mwy i helpu i ddarparu gweithgareddau yn Gymraeg, ac i ddatblygu digwyddiadau a gweithgareddau penodol sy'n dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'n diwylliant Cymraeg unigryw. Dylai hefyd sicrhau bod diwylliant Cymraeg, a diwylliant Cymru, yn cael eu plethu i mewn i unrhyw ddigwyddiadau pwysig a'u bod yn rhan o sut yr ydym yn cyflwyno'n hunain i'r byd a'r betws.

Enghreifftiau

Urdd Gobaith Cymru
www.urdd.cymru/cy

Theatr Genedlaethol Cymru
www.theatr.cymru

Theatr Bara Caws
www.theatrbaracaws.com

Creature Battle Lab
(gêm gyfrifiadurol)

Prosiect digideiddio
Cwmni Recordiau Sain

Ymgrych ddawns Ballet Cymru/S4C

Gwirfoddoli



Mae tua 4,000 o grwpiau celfyddydau, crefftau a threftadaeth amatur ledled Cymru, gan gynnwys corau, cerddorfeydd, bandiau pres, grwpiau theatr amatur, archifwyr a churaduron, dawnswyr gwerin, gwneuthurwyr les, cwiltwyr a pheintwyr.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn sefydliadau gwirfoddol lleol; nid ydynt yn cael unrhyw arian cyhoeddus, ac maent, ar y cyfan, yn hunangynhaliol, ac yn talu costau drwy ffioedd aelodaeth ac incwm a geir drwy werthu tocynnau. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogiad creadigol yn digwydd mewn grwpiau o'r fath, ac amcangyfrifir bod 650,000 o bobl yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd.

Hanfod y math hwn o weithgarwch gwirfoddol yw gwella'ch hun, rhwydweithio a chael hwyl. Mae grwpiau o'r fath yn rhoi cyfle i bobl na fyddent yn cymryd rhan mewn diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth fel arall, wneud hynny yn eu cymuned leol.

Ar adeg pan fo cynifer o bethau'n cystadlu am amser ac arian, mae

grwpiau o'r fath yn ffynnu drwy ddefnyddio arbenigedd a phrofiad eu haelodau, eu ffrindiau, eu teuluoedd a'r gymuned leol, a hefyd y berthynas sydd ganddynt ag eraill.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n rhaid i ni hyrwyddo manteision gwirfoddoli diwylliannol i'r unigolyn ac i'r gymuned, gan dynnu sylw at yr amryfal ffyrdd y gall pobl o bob cefndir wneud hynny. Gall gwirfoddolwyr wneud cymaint i gynnal y gweithgareddau diwylliannol y mae cymunedau lleol yn dibynnu arnynt. Mae Trosoglwyddo Asedau Cymunedol yn dod o hyd i ffyrdd newydd o roi cyfleusterau lleol pwysig yn nwylo'r bobl leol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gweithgarwch hwnnw. Byddwn hefyd yn cadw golwg ofalus ar y rheolau a'r rheoliadau trwyddedu sydd, weithiau, yn penderfynu a yw rhywbeth o werth lleol yn digwydd ai peidio. Gall pob rhan o'r sector diwylliant greu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli o safon, er enghraifft, drwy hyfforddi gwirfoddolwyr i ddigideiddio casgliadau.

Enghreifftiau

Eisteddfod Genedlaethol

www.eisteddfod.cymru

Prosiect 'Cynefin' y Llyfrgell Genedlaethol

www.cynefin.archiveswales.org.uk/cy/

Prosiect 'Helpwch Ni i Gyflawni' Llyfrgell Genedlaethol

www.llgc.org.uk/about-nlw/work-with-us/volunteer
www.llgc.org.uk/cy/am-llgc/gweithio-gyda-ni/gwirfoddoli/

Llysgenhadon Safle Treftadaeth Byd Blaenafon

[www.visitblaenavon.co.uk/en/Education/YouthAmbassadors/Youth-Ambassadors.aspx](http://www.visitblaenavon.co.uk/en/Education/YouthAmbassadors/Youth-Ambassadors.aspxEducation/YouthAmbassadors/Youth-Ambassadors.aspx)

Digidol



Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, bu twf nas gwelwyd ei debyg o'r blaen yn nifer y sianeli digidol, a gwelwyd cynnydd aruthrol yn y cynnwys sydd ar gael ar-lein. Ym maes diwylliant, mae ffonau symudol, gwe-gamerâu a meddalwedd gyfrifiadurol wedi democrateiddio'r dull o gynhyrchu. Erbyn hyn, gall pawb fod yn awdur, yn gerddor neu'n rhywun sy'n gwneud ffilmiau. Mae technoleg yn llai o ran maint, yn rhatach, yn fwy pwerus ac yn fwy personol; mae'n newid y modd yr ydym yn defnyddio cynnwys, ac yn cynnig ffyrdd newydd o gyfnewid safbwyntiau, syniadau a chynnwys.

Mae Llywodraeth Cymru, ac eraill, megis Cyngor Celfyddydau Cymru drwy ei Gronfa Arloesedd Digidol, yn annog ffyrdd newydd o fanteisio ar rym digidol, ac mae llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol yn helpu pobl i fanteisio ar ddiwylliant digidol, ac i ddatblygu arbenigedd digidol.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae technoleg ddigidol yn gyfle enfawr i'r sector creadigol a diwylliannol. Mae angen iddo wneud mwy i hyrwyddo a rhannu'r hyn sydd ganddo i'w gynnig, ac i fanteisio ar ei ddarparwr rhyngwyd. Er enghraifft, mae gennym gasgliadau diwylliannol anhygoel, ond mae llawer ohonynt mewn storffeydd. Mae gan y cyhoedd yr hawl i weld y gwaith hwn, ac mae llwyfannau digidol yn ffordd wych o gyflawni hynny.

Engbreiffiau

Casgliad y Werin

www.casgliadywerin.cymru/

Sibrwd

www.sibrwd.com

UCAN GO

www.nesta.org.uk/our-projects/digital-rd-fund-arts-wales-case-studies/ucan-go

Draig CGI Cadw

<http://cadw.gov.wales/about/news/caerphilly-dragon-unleashed-to-support-wales/?skip=1&lang=cy>

Gwasanaeth Llyfrgell Ddigidol Cymru Gyfan

<https://llyfrgelloedd.cymru/>

Cymuned National Theatre Wales

www.community.nationaltheatrewales.org

Cyfryngau a darlledu

Mae swyddogaeth darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn arbennig o bwysig, a hynny oherwydd gwendid y sector cyfryngau print. Yn anffodus, prin yw'r ymdriniaeth â bywyd a chymdeithas Cymru – gan gynnwys ei diwylliant – ym mhapurau newydd y DU ac ar wasanaethau darlledu y DU, sef y prif ddarparwyr ym maes y cyfryngau yng Nghymr.



Nid yw'r ddelwedd o Gymru a bortreadir yng nghyfryngau'r DU yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a chyfoeth ein gwlad. Mae gan y darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus swyddogaeth hanfodol i'w chwarae o ran adlewyrchu ac atgyfnerthu diwylliant Cymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Mae'n hanfodol bod y rôl honno'n parhau a bod y ddarpariaeth yn cynyddu. Mae Siarter newydd y BBC yn rhoi pwrpas cyhoeddus cryfach i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol Cymru; mae hefyd yn atgyfnerthu ei phartneriaeth ag S4C ac yn rhoi setliad ariannol cadarn o ran yr elfen o gyllid S4C a ddaw o ffi'r drwydded, sy'n hanfodol bwysig er mwyn i S4C barhau i ddatblygu ei gwasanaethau.

Wrth edrych i'r dyfodol, dylem bwysu am fwy o gynnwys a rhaglenni gwell sydd wedi eu creu ar gyfer Cymru, yng Nghymru ac sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd Cymru, gan gynnwys ein diwylliant a'n treftadaeth. Datblygwyd partneriaethau pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae angen mynd ati i feithrin partneriaethau â chyrff eraill. Mae'r Memorandwm

Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac S4C wedi darparu llwyfan i'r ddau sefydliad nodi a chyd-fuddsoddi mewn talent greadigol sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chanfod ffyrdd newydd i ddigwyddiadau a phrosiectau artistig ddod o hyd i gynulleidfaoedd.

Yn yr un modd, mae'r Bartneriaeth Gwerth Cyhoeddus y cytunwyd arni rhwng BBC Cymru Wales a Chyngor y Celfyddydau yn cynnig cyfleoedd i nodi ac i feithrin talent greadigol, i annog darparwyr i gomisiynu gwaith newydd, ac i feithrin sgiliau digidol a sgiliau crefft ar draws y sector creadigol.

Enghreifftiau

Y Gwyll / Hinterland

www.s4c.cymru/en/drama/y-gwyll

Coast and Country

www.itv.com/walesprogrammes/coast-and-country

Fferm Factor

www.s4c.cymru/cy/adloniant/fferm-ffactor

Beth arall mae angen ei wneud? Sut gallwn ni fonitro cynnydd?



Bydd gofyn i lywodraeth genedlaethol a lleol, cyrff nodedig, ac amryfal rannau'r 'teulu diwylliannol' weithredu, buddsoddi a chydweithio er mwyn cyrraedd y nod. Awn ati yn yr adran hon i grynhoi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, a hefyd yr hyn y byddwn yn annog eraill i'w wneud i helpu'r sector diwylliant i ffynnu ac i ddatblygu yn ystod y cyfnod nesaf. Yn olaf, rydym yn disgrifio sut y byddwn yn monitro ac yn gwerthuso'r cynnydd a wneir.

Yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud

Byddwn yn cyflawni'r ymrwymïadau Diwylliant sydd yn ein rhaglen newydd. Mae nifer ohonynt yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anfantais, iechyd, addysg a datblygiad economaidd. Gweler Atodiad 1, sy'n manylu ar ein hymrwymïadau newydd.

Yn ogystal â'r hyn sy'n cael ei nodi yn y rhaglen a gyhoeddwyd, byddwn yn:

- Annog awdurdodau lleol i ddadlau'r achos dros ddiwylliant, a byddwn yn gweithio gyda nhw, a phartneriaid eraill, i ddod o hyd i ffyrdd tecach o ariannu cyfleusterau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Pwyso ar Lywodraeth y DU i dalu'n llawn yr arian y byddwn yn ei golli o gronfeydd yr UE ar ôl 2020, gan gynnwys arian sydd wedi bod ar gael i gefnogi diwylliant, megis Ewrop Greadigol, Erasmus +, etc.
- Defnyddio mwy ar ein dulliau 'cymell tawel' drwy barhau i hyrwyddo cyfnewid diwylliannol rhyngwladol a, lle bo hynny'n briodol, drwy ddefnyddio'n hadnoddau diwylliannol i gefnogi'n hymdrechion i hyrwyddo masnach dramor a mewnfuddsoddiad.

- Gwneud rhagor i hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol a'r digwyddiadau mawr sy'n bywiogi bywyd diwylliannol.

Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan eraill

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn galw arnom i gydweithio ag eraill i'n helpu i gyrraedd ein hamcanion llesiant. Bydd hynny'n hollbwysig os ydym am gyflawni'r nodau yn y datganiad hwn – mae angen i ni gydweithio â'n partneriaid ym maes llywodraeth leol, gyda'r cyrff a noddir, a chyrff sy'n gweithio yn y sector diwylliant. Rydym yn disgwyl i bob un ohonynt ein helpu gyda'r agenda hon yn y ffyrdd isod:

Llywodraeth Leol


Mae'n hanfodol bod llywodraeth leol yn cefnogi diwylliant, nid dim ond er mwyn osgoi toriadau a chau cyfleusterau, ond hefyd er mwyn cynnal llesiant eu cymunedau. Rydym yn annog awdurdodau i ymateb yn bositif drwy:

- Ddefnyddio'r dyletswyddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn sail ar gyfer eu gwaith yn hyn o beth, gan lunio ac arwain strategaeth leol ar gyfer diwylliant sy'n darparu fframwaith ar gyfer cydweithio lle gall unigolion, sefydliadau a mudiadau gyflawni canlyniadau ar y cyd.
- Ymgynghori ac ymgysylltu â'u cymunedau cyn gwneud penderfyniadau mawr am berchenogaeth a rheolaeth ar wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol yn y dyfodol, a chyn gwneud penderfyniadau ynghylch parhau i'w darparu.
- Hwyluso defnydd creadigol o asedau cyhoeddus at ddibenion cymdeithasol mewn ffyrdd nad ydynt yn arwain at bwysau mawr ar gyllidebau refeniw.

Cyrff a Noddir a Dosbarthwyr y Loteri

Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, i gyd rôl allweddol i'w chwarae o ran ariannu a galluogi gweithgareddau. Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri hithau ei rhan, ac, i raddau llai ond graddau sydd dal yn arwyddocaol, y Gronfa Loteri Fawr. Disgwyliwn i'r cyrff hyn:

- Hwyluso gwell cyfraniad gan y sector Diwylliant i drechu tlodi, ac o ran cefnogi agendâu iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, cydraddoldeb, adfywio, sgiliau a chyflogaeth.
- Annog y sector diwylliant i fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd ar drywydd ffurfiau newydd o incwm, wrth ddatblygu ei sgiliau busnes a marchnata, ac wrth fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Yn rhan o hynny, dylai'r asiantaethau hyn adolygu a mireinio eu gwasanaethau codi arian a chynngor busnes, er mwyn helpu'r sector i amrywio ei sylfaen incwm.
- Cydweithio i ddatblygu dulliau mwy arloesol a chydweithredol o fuddsoddi mewn diwylliant; er enghraifft, sut y gallai dosbarthwyr y Loteri gydariannu prosiectau diwylliannol ac adfywio sy'n seiliedig ar le.



Sefydliadau diwylliannol

Rydym yn gobeithio y bydd y sector diwylliant yn ymateb yn gadarnhaol i'r holl themâu yn y Datganiad hwn, ond mae yna sawl maes allweddol lle'r ydym yn disgwyl iddo ymateb.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau diwylliannol:

- Helpu i annog rhagor o bobl i fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol, er mwyn helpu i sicrhau mai Cymru fydd y wlad fwyaf creadigol weithgar yn Ewrop, ac rydym yn disgwyl iddynt gyfrannu at ein rhaglen o gynnig mynediad agored i gyfleoedd diwylliannol i bobl ifanc.
- Gweithio i fod yn fwy cynaliadwy, i gyrraedd rhagor o bobl ac i fod yn fwy cydnerth drwy ddatblygu eu gallu masnachol a'u gallu i farchnata a chodi arian, a thrwy weithio i fanteisio'n llawn ar botensial technoleg ddigidol, gan gynnwys y rhith-gynulleidfa (drwy ffrydio byw, gweminarau, etc).
- Gweithio gyda phartneriaid i wella profiad ymwelwyr yn ein hatyniadau diwylliannol. Cynorthwyo Croeso Cymru, ac eraill, i ddatblygu rhagor o gyfleoedd ar gyfer 'twristiaeth ddiwylliannol'.
- Cyfrannu at raglenni adfywio, gan gynnwys dinas-ranbarthau Prifddinas Caerdydd a Bae Abertawe, Tasglu'r Cymoedd, a Bergen Twf Mersi a Dyfrdwy, drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cyrff diwylliannol eraill, a rhanddeiliaid eraill.

- Gweithio gyda byrddau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol i ddatblygu rhagor o fentrau lles ac iechyd ataliol.
- Cyfrannu at 'Cyfuno', ein rhaglen genedlaethol i drechu tlodi drwy ddiwylliant, a 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau', ein rhaglen genedlaethol i gynnig rhagor o gyfleoedd diwylliannol mewn ysgolion ac i wella cyrhaeddiad disgyblion drwy greadigrwydd.

Monitro a gwerthuso

Bydd hi'n bwysig monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y Datganiad hwn. Mae bron yn anochel bod rhai gweithgareddau diwylliannol, a'u canlyniadau, yn anodd eu mesur yn wrthrychol.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen gwella'r dystiolaeth sydd ar gael am effeithiolrwydd ymyriadau diwylliannol, yn arbennig pan fo'r rheini'n cyfrannu at feysydd polisi allweddol megis iechyd, addysg a'r economi. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn:

- Monitro ac yn adrodd ar y cynnydd a wneir ar yr holl gamau gweithredu yn y Datganiad hwn.
- Datblygu Cynllun Ymchwil, Tystiolaeth a Gwerthuso cydlynol ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, a fydd yn cynnwys comisiynu gwaith ymchwil ym maes diwylliant. Bydd y cynllun hwnnw'n tynnu ynghyd y gwaith ymchwil a gwerthuso a wnaed gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddur ganddi, er mwyn llywio polisiau diwylliannol.

Ymrwymadau rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant

ATODIAD 1



FFYNIANNUS A DIOGEL

Ymrwymadau

Byddwn yn manteisio ar lwyddiant digyffelyb y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru er mwyn hybu'r wlad ledled y DU ac ym mhedwar ban byd.

Byddwn yn sefydlu 'Cymru Greadigol' i gefnogi'r sector yng Nghymru. Wrth wneud hynny, ein nod bydd cynnal o leiaf 850 o swyddi a £40 miliwn y flwyddyn o wariant ar gynrychiadau.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant digyffelyb y 'Flwyddyn Antur' drwy ddynodi 2017 yn 'Flwyddyn Chwedlau'. Bydd 2018 yn 'Flwyddyn y Môr', ac yn gyfle i fuddsoddi yn ein trefi glan môr.

Byddwn yn sicrhau cydweithrediad agosach â'r sector addysg, er mwyn sicrhau cyflenwad cyson o sgiliau

i gefnogi twf y sector diwydiannau creadigol.

Byddwn yn hyrwyddo gwaith Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen i ddod â chenhedloedd gwahanol at ei gilydd.

Gwaith cysylltiedig arall

Byddwn yn ceisio datblygu rhagor o lwybrau twristiaeth ddiwylliannol drwy fuddsoddi ym mhrofiad yr ymwelwyr ac mewn darparu llety yn ein hatyniadau diwylliannol pwysig.

Yng nghyswllt digwyddiadau mawr, byddwn yn gweithio i ddatblygu a manteisio ar rith-gynulleidfaoedd digidol, nad ydynt ar y safle, er enghraifft, drwy ffrydio byw a gweminarau,

a byddwn yn nodi ac yn datblygu cyfleoedd i sefydlu digwyddiadau newydd a 'Wnaed yng Nghymru'.

Byddwn yn gweithio i hwyluso cyfraniad priodol gan y sector diwylliant i adfywio dinas-ranbarthau Prifddinas Caerdydd a Bae Abertawe.

Byddwn yn datblygu'n perthynas â'r British Council, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Visit Britain, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo diwylliant Cymru dramor; byddwn yn sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli'n briodol mewn mentrau perthnasol gan y DU.

IACH AC EGNÏOL

Ymrwymïadau

Byddwn yn cyflwyno Bond Lles newydd ar gyfer Cymru â'r nod o wella iechyd meddwl a chorfforol.

Byddwn yn parhau i weithio i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig â salwch meddwl ac yn gweithio gydag ysgolion, cyflogwyr a phartneriaid eraill i wella lles yn y gweithle, ym myd addysg ac yn ein cymunedau.

UCHELGAIS A DYSGU

Ymrwymïadau

Creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o safon uchel i bobl o bob oedran.

Pennu amodau newydd yn ymwneud â chefnogi pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig wrth ariannu sefydliadau chwaraeon a diwylliannol sy'n cael arian cyhoeddus.

Ehangu ein rhaglen mynediad agored i gynnwys cyfleoedd diwylliannol ar gyfer pobl ifanc.

Byddwn yn creu ac yn helpu i ddarparu cyllid cyfalaf ar gyfer Cronfa Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth i helpu pobl ifanc i wireddu eu potensial cerddorol.

Gwaith cysylltiedig arall

Byddwn yn parhau â'r gwaith a wnaed o dan ein menter 5 mlynedd, 'Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau', sy'n werth £20 miliwn, a byddwn yn atgyfnerthu'r gwaith hwnnw. Byddwn yn rhoi cymorth i ysgolion gyflwyno'r cwricwlwm newydd ac i ddatblygu dulliau addysgu mwy creadigol.

UNEDIG A CHYSYLLTIEDIG

Ymrwymïadau

Byddwn yn ceisio cynyddu buddsoddiad yn y celfyddydau drwy gyflwyno Cronfa Her, ar gyfer sefydliadau ym maes y celfyddydau a chwaraeon yn y lle cyntaf, er mwyn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer eu prosiectau a chyfuno creadigrwydd â datblygiadau digidol.

Byddwn yn creu 'Cymru Hanesyddol' er mwyn gwella swyddogaethau masnachol y sector treftadaeth yng Nghymru a byddwn yn ceisio sicrhau bod sefydliadau cenedlaethol yn fwy perthnasol i fywydau pobl.

Gan weithio gyda phartneriaid, byddwn yn creu 'Coridor Diwylliant yr A55', er mwyn hyrwyddo gwerth ein cestyll, ein mynyddoedd, ein harfordir, ein trefi a'n cefn gwlad, sydd o safon fyd-eang, i dwristiaeth, a byddwn yn troi'r coridor hwnnw'n un o lwybrau diwylliannol mawr Ewrop.

Byddwn yn buddsoddi dros £1 filiwn y flwyddyn er mwyn parhau â'r gwaith o weddnewid ein llyfrgelloedd a'n hamgueddfeydd lleol.

Byddwn yn cynnal astudiaethau dichonoldeb ar sefydlu Oriel Gelfyddyd Genedlaethol, ac Amgueddfa Bêl-droed yn y Gogledd – gan adlewyrchu'n cytundeb gyda Phlaid Cymru ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18.

Byddwn yn ceisio cynnig setliadau ariannol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn rhoi mwy o gadernid a sicrwydd i gyrff cenedlaethol a noddir, megis Cyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru, ond gan rybuddio ar yr un pryd fod ein grym gwario yn dibynnu ar yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig i Gymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol, sy'n un o'r prif ddigwyddiadau diwylliannol yn Ewrop, i'w moderneiddio a'i marchnata.

Byddwn yn pwyso am gyllid teg ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Byddwn yn rhoi pwyslais penodol ar gefnogi prosiectau cyllido torfol cymunedol fel ffordd o hyrwyddo Cymru fel cyrchfan, gan annog llythrennedd digidol a thyfu'r economi ddigidol.

Byddwn yn archwilio'r dewisiadau ar gyfer cefnogi cyfryngau ar-lein a phrint.

Gwaith cysylltiedig arall

Byddwn yn atgyfnerthu'r rhaglen Cyfuno drwy ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n hyrwyddo llwybrau at gyflogaeth.

Byddwn yn gweithredu darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, ynghyd â'r cyngor a'r arweiniad cysylltiedig, fel y bo modd gwarchod adeiladau a henebion rhestredig mewn ffordd fwy effeithiol; byddwn yn gwella rheolaeth gynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol; ac yn cyflwyno gwell tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau am yr amgylchedd hanesyddol.

Byddwn yn parhau i gefnogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol fel ffordd o roi cyfleusterau lleol pwysig yn nwylo'r bobl leol.

Byddwn yn pwyso am ragor o gynnwys darlledu ac am gynnwys darlledu o ansawdd gwell, ac am raglenni a wnaed yng Nghymru ar gyfer Cymru, ac sy'n ymdrin â phob agwedd ar fywyd Cymru, gan gynnwys ein diwylliant a'n treftadaeth.



Credyd Lluniau

Amgueddfa Cymru China (t.10)

Arts Alive Wales, Portfolio (llun: Toril Brancher, t.22)

Awr Ddaear, Head4Arts (llun: Mark Lewis, WWF Cymru, t.13)

Stiwdios y BBC Porth y Rhath, Wyneb Blaen (llun: Betina Skovbro, t.07)

Big Splash, Glan yr Afon (llun: Creative Fez, t.01)

Cadw Cadwraeth Cymru, Hawlfraint y Goron (lluniau, t.14)

Prosiect Cynefin, Llyfrgell Genedlaethol Cymru (t.19)

DilynFi, Cwmni'r Frân Wen (llun: Geraint Thomas, t.27)

Dylan Thomas 100, Writing Shed
(llun: Llenyddiaeth Cymru, t.08)

Ensemble Cello, Canolfan Gerdd William Mathias
(llun: Geraint Thomas Panorama, t.05)

Cwmni Dawns Expressions Associates, Artis Community
(llun: SpringBox Photography, t.26)

Matinee i'r Teulu ar gyfer Get Creative y BBC ym mis Mawrth,
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
(llun: Catherine Gomez, t.05)

FiDiFi, Cwmni'r Frân Wen (llun: Kristina Banholzer, t.11)

From the Station to the Sea, Coastal Housing and Volcano
Theatre (t.23)

Gŵyl y Dyn Gwyrdd (llun: Jenna Foxton/Fanatic, t.07)

Y Gwyll, drwy garedigrwydd S4C (llun: Warren
Orchard, t.21)

Jambyls, Eisteddfod yr Urdd 2016 (llun: Irfon Bennett, t.18)

Only The Brave, Canolfan Mileniwm Cymru
(llun: Helen Maybanks, t.05)

Diwrnod Agored Pontio (llun: Iolo Penri, t.18)

Cynulleidfa Silly Kings (llun: National Theatre Wales, t.20)

Canu a Dementia (llun: Tîm Cyfathrebu Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr, t.12)

TEAM (llun: National Theatre Wales, t.20)

The Company of Trees, Helen Sear,
Cymru yn Fenis 2015 (t.06)

Unusual Stage School Celfyddydau Anabledd Cymru
(llun: Rachel Stelmach, t.17)

Beth yw Crefft? (llun: Canolfan Grefftau Rhuthun, t.16)

Grŵp Ysgrifennu Cymraeg Celfyddydau Anabledd
Cymru (t.27)